

# Crynodeb gweithredol

## Cyflwyniad

Mae'r Alwad hon am Dystiolaeth yn nodi'r cyd-destun, y materion a'r meysydd lle mae'r Comisiwn yn ceisio barn ynghylch y sector dŵr yng Nghymru a Lloegr.

**Mae'r sector dŵr yn wynebu llawer o heriau. Bydd angen newid hirdymor a thrawsffurfiadol er mwyn datrys y rhain.** Nod y ddogfen hon yw casglu tystiolaeth a barn gan bawb sydd â diddordeb ynghylch sut beth fyddai'r newid hwnnw.







**Mae hon yn dasg heriol ond mae hefyd yn gyfle.** Dros y misoedd nesaf, bydd y Comisiwn annibynnol yn edrych ar sut i ddiwygio'r system er mwyn adennill ffydd a chymell sector ffyniannus a chynaliadwy sy'n gallu ateb y gofynion a roddwn arno.

Mae'r ddogfen wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae **Pennod 1** yn amlinellu hanes byr y diwydiant dŵr ers ei breifateiddio.
- Mae **Pennod 2** yn edrych ar reolaeth strategol dŵr yng Nghymru a Lloegr. Mae gennym un system ddŵr sy'n wynebu llawer o bwysau a gofynion sy'n cystadlu â'i gilydd. Mae'r Comisiwn yn awyddus i gael barn a thystiolaeth ynghylch a oes angen cynllunio cydgysylltiedig rhwng y grwpiau hynny, a chyfeiriad clir o ran blaenoriaethau a chyfaddawdau.
- Mae **Pennod 3** yn edrych ar y fframwaith rheoleiddiol cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys ceisio barn ynghylch a oes angen gwneud newidiadau i swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Llywodraeth a'r rheoleiddwyr – Ofwat, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed.
- Mae **Pennod 4** yn ymdrin â rheoleiddio economaidd a phroses Adolygiad Prisiau bob 5 mlynedd pan fo Ofwat yn asesu gofynion ac yn gosod terfynau o ran biliau cwsmeriaid. Mae'r bennod hon hefyd yn ymdrin â diogelu cwsmeriaid, cadernid ariannol, buddsoddi a chystadleuaeth.
- Mae **Pennod 5** yn edrych ar y rheoliadau sy'n ymwneud ag amcanion polisi cyhoeddus y mae angen i'r diwydiant dŵr eu cyflawni. Mae hynny'n cynnwys diogelu'r amgylchedd, darparu dŵr yfed glân, diogelu adnoddau dŵr, a chynnal a chadw'r seilwaith a'i uwchraddio.
- Mae **Pennod 6** yn edrych ar fodolau perchnogaeth cwmnïau dŵr. Mae rhai cwmnïau dŵr wedi'u rhestru, mae rhai yn eiddo i fuddsoddwyr sefydliadol, rhai yn eiddo i gwmnïau ecwiti preifat, rhai i uwchgwmnïau seilwaith. Mae gan Ddŵr Cymru fodol 'nid-er-elw'. Mae'r bennod hon yn cymharu gwahanol fodolau ar draws y Deyrnas Unedig ac ar lefel ryngwladol.

Mae nifer o gwestiynau ar ddiwedd pob pennod. Mae'r rhain hefyd yn cael eu crynhoi yn **Atodiad E**. Nid oes angen i ymatebwyr ateb pob cwestiwn.

Mae nifer o faterion wedi cael eu codi'n gyson gyda'r Comisiwn. Mae'r rhain wedi'u crynhoi isod.

<p><b>1 Angen cydlynu strategol ar draws sectorau sy'n cael effaith ar ddŵr neu sy'n cydweithio â dŵr.</b> Mae nifer o randdeiliaid wedi awgrymu bod penderfyniadau cynllunio, rheoleiddio a buddsoddi yn aml yn cael eu cadw ar wahân ar draws gwahanol grwpiau.<sup>1</sup></p>	
<p><b>2 Angen cynllunio clir ar gyfer dŵr yn y tymor hir.</b> Mae'r Comisiwn wedi clywed nad oes gan y sector dŵr gynllun hirdymor cydlynus. Mae wedi clywed hefyd nad yw targedau blaenorol a dogfennau strategaeth sy'n pennu gweledigaeth wedi rhoi canlyniadau clir i gwmnïau a rheoleiddwyr weithio tuag atyn nhw bob amser. Er enghraifft, roedd y Datganiad Polisi Strategol diweddaraf gan y llywodraeth yn nodi mwy na 50 o ddisgwyliadau ar draws 4 'blaenoriaeth strategol' i Ofwat.<sup>2</sup></p>	
<p><b>3 Cymhlethdod a swmp gwaith rheoleiddio'r diwydiant dŵr.</b> Mae'r ddeddfwriaeth ynghylch dŵr wedi dod yn fwyfwy cymhleth. Er enghraifft, roedd 93 o ofynion unigol yn Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol ddiweddaraf y Diwydiant Dŵr (WINEP) – y rhwymedigaethau amgylcheddol y mae angen i gwmnïau dŵr eu dilyn. Mae hynny'n gyfystyr â dros 18,598 o gamau gweithredu unigol, ac mae 98% ohonyn nhw'n statudol.<sup>3</sup></p>	
<p><b>4 Pryderon ynghylch goruchwyliaeth reoleiddiol o'r diwydiant dŵr.</b> Mae'r Comisiwn wedi clywed bod cylchoedd gwaith rheoleiddwyr yn gorgyffwrdd mewn rhai meysydd a bod bylchau hefyd. Mae wedi clywed pryderon hefyd ynghylch y dulliau i sicrhau perfformiad ac atebolrwydd o ran yr amgylchedd.<sup>4</sup></p>	
<p><b>5 Yr angen am enillion teg a sefydlog i fuddsoddwyr.</b> Mae angen gallu buddsoddi yn y diwydiant dŵr i ddarparu'r seilwaith ar gyfer y dyfodol; rhaid i enillion buddsoddwyr hefyd fod yn deg ac yn gymesur. Bydd buddsoddiad newydd yn cynyddu bedair gwaith rhwng 2025 a 2030 o'i gymharu â lefelau blaenorol.<sup>5</sup></p>	
<p><b>6 Yr angen am well fframwaith i sicrhau cydnerthedd seilwaith.</b> Mae cydnerthedd gweithredol ac i ba raddau mae cwmnïau'n cynnal a chadw asedau presennol ac yn cynllunio ar gyfer heriau yn y dyfodol, fel newid yn yr hinsawdd, wedi cael ei godi fel un o'r materion allweddol. Er enghraifft, cafodd y rhan fwyaf o'r prif bibellau eu hadeiladu cyn y</p>	

<sup>1</sup> [FRESH WATER FUTURE MAIN REPORT WEB.pdf](#)

<sup>2</sup> [The government's strategic priorities to Ofwat](#)

<sup>3</sup> [Placeholder for reference]

<sup>4</sup> Ymgysylltu â'r Comisiwn; [Water Quality in Rivers](#); [Tŷ'r Arglwyddi - The affluent and the effluent: cleaning up failures in water and sewage regulation – Pwyllgor Diwydiant a Rheoleiddwyr](#)

<sup>5</sup> <https://www.ofwat.gov.uk/regulated-companies/price-review/2024-price-review/final-determinations/#:~:text=The%202024%20price%20r,deliver%20cleaner%20rivers%20and%20seas.>

preifateiddio, ac mae'r gyfradd adnewyddu pibellau wedi gostwng yn sylweddol ar ôl 2008. <sup>6</sup>	
-------------------------------------------------------------------------------------------------------	--

## Yr hanes (Pennod 1)

**Cafodd y diwydiant dŵr ei breifateiddio ym 1989 a'r amcan oedd sicrhau mwy o effeithlonrwydd a denu'r buddsoddiad sylweddol oedd ei angen i fodloni safonau amgylcheddol yr Undeb Ewropeaidd.** Cafodd system reoleiddio newydd ei sefydlu mewn cyfraith – gan greu Ofwat, yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol (sef Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru erbyn hyn) a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed.

**Ers hynny, mae'r galw a'r gofynion o ran y system ddŵr wedi tyfu ac wedi mynd yn fwy cymhleth.** Mae realiti'r newid yn yr hinsawdd, twf y boblogaeth, a seilwaith sy'n mynd yn hŷn wedi ychwanegu pwysau sylweddol. Mae ymwybyddiaeth amgylcheddol wedi gwella hefyd, sy'n golygu bod y safonau ar gyfer diogelu'r amgylchedd wedi codi.<sup>7</sup>

**Bu gwelliannau ers preifateiddio'r diwydiant dŵr.** Mae safonau dŵr yfed a glanweithdra gyda'r gorau yn y byd. Mae mwy o dryloywder a monitro amgylcheddol yng Nghymru a Lloegr. Mae tua £224 biliwn o fuddsoddiad cyfalaf wedi bod ers preifateiddio, gyda buddsoddi cyfalaf 2023/24 dros ddwywaith y lefelau blynyddol yn y blynyddoedd yn union cyn i'r sector gael ei breifateiddio ym 1989.<sup>8</sup>

**Mae problemau mawr wedi codi hefyd.** Mae'r fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddiol a ddatblygwyd gan lywodraethau olynol wedi arwain at gyfundrefn gymhleth, ac mae llawer yn dweud nad yw hyn mor glir a phenodol ag y gallai fod. Mae tystiolaeth bod cwmnïau dŵr wedi methu â chyflawni'r hyn a ddisgwyllir ganddyn nhw, gan reoleiddwyr a'r cyhoedd, er eu bod yn cael eu hariannu i gyflawni gwelliannau.<sup>9</sup> Mae cydnerthedd ariannol rhai cwmnïau dŵr yn wan iawn.<sup>10</sup>

**Mae'r Comisiwn yn archwilio ac yn chwilio am dystiolaeth ar y materion sydd wedi dod i'r amlwg ers preifateiddio er mwyn helpu i bennu llwybr ar gyfer dyfodol gwell.** I gefnogi hyn, bydd hefyd yn edrych ar y dystiolaeth o reoleiddio mewn sectorau eraill ac ar lefel ryngwladol.

<sup>6</sup> Mae Ofwat yn [adrodd](#) bod cyfraddau adnewyddu'r prif bibellau, ar gyfartaledd, wedi gostwng ar ôl 2008 oherwydd diwedd y rhaglen gwella ansawdd dŵr yfed

<sup>7</sup> [Plan for Water: our integrated plan for delivering clean and plentiful water - GOV.UK](#), [River pollution and the regulation of private water companies – Llyfrgell Tŷ'r Arglwyddi](#)

<sup>8</sup> Wedi'i droi i brisiau 2022/23 gan ddefnyddio CPIH. £236 biliwn yn 2023/24, prisiau fel yr adroddwyd gan Ofwat - [Long-term data series of company costs - Ofwat](#)

<sup>9</sup> [Water and sewerage companies in England: environmental performance report 2023 - GOV.UK](#), [Cyfoeth Naturiol Cymru / Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer Dŵr Cymru \(Welsh Water\)](#)


<sup>10</sup> <https://www.ofwat.gov.uk/publication/monitoring-financial-resilience-report-2023-24/>



## Fframwaith trosfwaol ar gyfer rheoli dŵr (Pennod 2)

Mae rheoli dŵr yn ymwneud â nifer o wahanol grwpiau. Mae penderfyniadau a wneir gan lywodraethau cenedlaethol a lleol, cwmnïau dŵr, ffermwyr, cyrff trafndiaeth a llawer mwy yn effeithio ar fasn un afon. Mae ffynonellau llygredd yn cynnwys llygredd y diwydiant dŵr, amaethyddiaeth a dŵr ffo ar y ffyrdd (Ffigurau 1 a 2). Mae ffactorau fel tai newydd, twf y boblogaeth a newid yn yr hinsawdd yn gwaethygu hyn.


**Ffigur 1: Canran y cyrff dŵr yr effeithir arnyh nhw yn ôl sector, Lloegr, 2019**



**Ffynhonnell: Yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata Asiantaeth yr Amgylchedd<sup>11</sup>**

<sup>11</sup> [25 YEP B3 evidence pack](#). Daw'r ffigurau o set 2019 o resymau tebygol ac wedi'u cadarnhau dros beidio â chael statws da (RNAG), sy'n gysylltiedig â dosbarthiadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) 2016. Mae 'Dim sector yn gyfrifol' yn golygu'r sefyllfaoedd hynny lle nad yw'n bosibl dweud mai gweithgareddau sector penodol sy'n gyfrifol am fethu â chael statws da, a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer rhywogaethau anfrodorol goresgynnol. Mae gan tua 6% o gyrff dŵr un RNAG neu fwy lle mae'r sector sy'n gyfrifol yn dal i gael ei ymchwilio. Mae gan tua 5% o gyrff dŵr un RNAG neu fwy a achoswyd gan sector gwahanol i'r rhai a restrir yn y ffigur.

**Ffigur 2: Canran y cyrff dŵr yr effeithir arnyn nhw yn ôl sector, Cymru, 2019**



**Ffynhonnell: Yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata Cyfoeth Naturiol Cymru<sup>12</sup>**

Wrth i'r pwysau ar y system ddŵr gynyddu, mae'n bosibl y bydd angen cydlynu gwahanol ganlyniadau a chael cyfaddawd anodd rhyngddyn nhw. Gallai'r canlyniadau hynny gynnwys, er enghraifft, sicrhau bod digon o ddŵr ar gael ar gyfer tai newydd neu ganolfannau data, cyrraedd targedau amgylcheddol, sicrhau bod y dyfroedd a ddefnyddir ar gyfer hamdden yn cyrraedd safonau iechyd y cyhoedd, lleihau'r perygl o lifogydd, a sicrhau bod buddsoddiad yn parhau i fod yn fforddiadwy i dalwyr biliau.

**Mae'r Comisiwn wedi clywed, er bod canllawiau ar gael ar rai elfennau, nad oes un strategaeth gyffredinol wedi'i gosod gan lywodraethau yng Nghymru na Lloegr i lywio'r ffordd y dylid rheoli'r gofynion hyn sy'n cystadlu â'i gilydd.** Mae rhanddeiliaid wedi cwestiynu a yw strategaethau llywodraethau blaenorol yn rhoi'r cyfeiriad a'r arweiniad clir sydd eu hangen ar yr hierarchaeth o flaenoriaethau a chyfaddawdau.<sup>13</sup>

**Mae'r Comisiwn yn ceisio barn am sut y gallai strategaeth hirdymor ar lefel genedlaethol yng Nghymru a Lloegr roi arweiniad cliriach ar flaenoriaethau.**

<sup>12</sup> Dadansoddiad Cyfoeth Naturiol Cymru o ddata a ddarparwyd drwy ymgysylltu â'r Comisiwn. Data oddi wrth: [Cyfoeth Naturiol Cymru](#)

<sup>13</sup> [Strategic Investment and Public Confidence](#)

**O dan y lefel genedlaethol, ar lefel systemau afonydd a dalgylchoedd dŵr, mae'r Comisiwn wedi clywed bod penderfyniadau ar gynllunio seilwaith lleol a buddsoddiad yn aml yn cael eu hystyried ar wahân i'w gilydd. Mae hynny'n cynnwys awdurdodau lleol ar gyfer cynllunio a datblygu, cwmnïau dŵr a rheoleiddwyr ar gyfer y diwydiant dŵr, Highways England ar gyfer dŵr ffo ar y ffyrdd, a ffermio.<sup>14</sup>**

**Mae'r Comisiwn yn ceisio barn am sut i wella'r penderfyniadau hyn a'u hintegreiddio'n well, megis drwy awdurdod sy'n gweithio ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu ddalgylch dŵr i benderfynu ar y camau gorau ar gyfer system ddŵr a helpu i osgoi gwneud penderfyniadau ar wahân. Clywyd nifer o awgrymiadau a allai olygu cynllunio a llywodraethu mwy canolog, naill ai'n edrych ar gynllunio'r diwydiant dŵr yn unig, neu'n ehangach. Mae rhai camau eisoes wedi cael eu cymryd i'r cyfeiriad hwn, fel y Dull Seiliedig ar Ddalgylch Dŵr (CaBA). Mae'r Comisiwn yn chwilio am dystiolaeth ar ehangu cynlluniau presennol sy'n cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ar lefel leol, neu greu swyddogaeth newydd.**

**Hoffai'r Comisiwn archwilio'r lefelau daearyddol ar gyfer cynllunio a llywodraethu dŵr yn y system ac a ydyn nhw'n cynnig atebolrwydd digonol. Bwriad y fframwaith rheoleiddio amgylcheddol presennol yw rheoli dŵr ar lefel basn afon. Mae gan bob basn afon sawl dalgylch dŵr. Mae'r rhain yn eu tro yn cynnwys nifer o gyrff dŵr sy'n aml yn gysylltiedig â'i gilydd. Gallai rheolaeth ar lefel llywodraeth leol neu ranbarthol fod yn ddewis arall. Byddai hyn yn golygu bod strwythurau democrataidd yn bodoli eisoes a allai gefnogi a goruchwyllo cynlluniau ar gyfer ardal ddaearyddol.**

**Yn y fframwaith cyfreithiol presennol, Cynlluniau Rheoli Basn Afon, o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, yw'r cynlluniau strategol sy'n dangos sut y bydd cynnydd yn cael ei sbarduno tuag at gyrraedd targedau amgylcheddol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Maen nhw wedi'u cynllunio i annog cynnydd cydgysylltiedig, ond mae'r Comisiwn wedi clywed nad oes dulliau ymgysylltu ynddyn nhw i gytuno ar y camau cywir na'r dulliau i sicrhau darpariaeth ar draws sectorau. Maen nhw hefyd yn canolbwyntio ar yr amgylchedd dŵr, ac nid ydynt yn cynnwys amcanion polisi cyhoeddus eraill fel iechyd y cyhoedd neu dwf a datblygiad.<sup>15</sup>**

**Mae'r amcan cyffredinol i wella ansawdd dŵr yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae'n mynnu y dylai 75% o gyrff dŵr wyneb yn Lloegr a 94% o gyrff dŵr wyneb yng Nghymru gyrraedd Statws Ecolegol Da erbyn 2027. Yn Lloegr, 16% yw'r ffigur hwnnw**

---

<sup>14</sup> [FRESH WATER FUTURE MAIN REPORT WEB.pdf](#)

<sup>15</sup> Ymgysylltu drwy Gomisiwn Annibynnol gydag Asiantaeth yr Amgylchedd

ar hyn o bryd. Yng Nghymru, mae'n 40%. **Yng Nghymru a Lloegr, bydd targed 2027 yn cael ei fethu.**<sup>16 17</sup>

**Mae llawer yn cefnogi'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr oherwydd ei bod yn darparu targedau sydd wedi'u rhwymo'n gyfreithiol ar ansawdd dŵr.** Mae eraill wedi dweud bod y cwmpas yn rhy gul, heb roi digon o bwyslais ar iechyd y cyhoedd na chanlyniadau amgylcheddol ehangach.<sup>18</sup> Mae'r llywodraeth wedi tynnu sylw at heriau sylweddol o ran cyflawni amcanion y Gyfarwyddeb yng nghyd-destun daearyddol penodol y Deyrnas Unedig.<sup>19</sup>

**Mae'r Comisiwn yn ceisio barn i weld a ddylid diwygio targed 2027 y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.**

## **Cyfeiriad strategol ar gyfer y diwydiant dŵr**

**Mae'r Comisiwn yn adolygu'r cyfeiriad a'r arweiniad strategol a roddir yn benodol i'r diwydiant dŵr.**

Mae'r Datganiadau Polisi Strategol, a gyhoeddir ar wahân bob pum mlynedd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru, yn rhoi arweiniad i Ofwat ar y diwydiant dŵr. Nid oes unrhyw ddogfennau cyfatebol ar gyfer y rheoleiddwyr dŵr eraill. Roedd y Datganiad Polisi Strategol diweddaraf gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn nodi mwy na 50 o ddisgwyliadau ar draws 4 'blaenoriaeth strategol'.<sup>20</sup>

Mae'r Comisiwn wedi clywed nad oes gan y Datganiad Polisi Strategol hierarchaeth glir o flaenoriaethau, a dim arweiniad i Ofwat ar unrhyw gamau cyfaddawdu. Mae wedi clywed hefyd mai prin yw'r amcanion penodol sydd â therfyn amser, ac mae hyn yn ei gwneud yn anodd mesur a yw blaenoriaethau wedi cael eu cyflawni. Ar hyn o bryd, dim ond am gyfnod 5 mlynedd yr Adolygiad Prisiau y mae'r Datganiad Polisi Strategol yn berthnasol, ac felly nid yw wedi edrych ar ganlyniadau dros y tymor hwy.<sup>21</sup>

Yng Nghymru, rhoddir arweiniad hefyd drwy'r Fforwm Adolygu Prisiau – sy'n cynnwys y llywodraeth, rheoleiddwyr a chynrychiolwyr defnyddwyr. Er bod hyn yn cefnogi cydweithio, mae'r Comisiwn wedi clywed bod llawer o benderfyniadau cyffredinol Ofwat ar gyfer Cymru wedi cael eu dylanwadu gan gynlluniau Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer Lloegr.<sup>22</sup>

---

<sup>16</sup> [A review of implementation of the Water Framework Directive Regulations and River Basin Management Planning in England](#)

<sup>17</sup> [Datganiad Ysgrifenedig: Cyhoeddi'r Adroddiad Tystiolaeth ar Orlifoedd Storm yng Nghymru \(26 Hydref 2023\) | LLYW.CYMRU](#)

<sup>18</sup> [https://www.wcl.org.uk/docs/WCL\\_Blueprint\\_WFD\\_Position\\_Paper\\_July\\_2024.pdf](https://www.wcl.org.uk/docs/WCL_Blueprint_WFD_Position_Paper_July_2024.pdf)

<sup>19</sup> [Government response to the Office for Environmental Protection report on the implementation of the Water Framework Directive Regulations and River Basin Management Planning in England - GOV.UK](#)

<sup>20</sup> [Strategic policy statement for Ofwat - GOV.UK](#)

<sup>21</sup> [Summary of responses and government response - GOV.UK](#)

<sup>22</sup> Adroddiad Afallen: Prosiect Adolygiad Prisiau 2019 Llywodraeth Cymru, a ddarparwyd i'r Comisiwn




## Mae'r Comisiwn yn adolygu a ddylid rhoi cyfeiriad strategol cliriach i'r diwydiant dŵr, a sut.

Mae amrywiol fframweithiau cynllunio cwmnïau dŵr, sydd â'r bwriad o fynd i'r afael ag amcanion polisi cyhoeddus, wedi cael eu cyflwyno dros amser hefyd, rhai statudol ac anstatudol. Dangosir y cynlluniau hyn yn Ffigur 3, ochr yn ochr â rhai'r llywodraeth a rheoleiddwyr.

Mae'r Comisiwn yn gofyn am farn ynghylch a yw fframweithiau cynllunio presennol y diwydiant dŵr yn adlewyrchu'r canlyniadau cywir ac yn cymell y camau y mae angen eu cymryd – ac a ellid symleiddio system gynllunio'r diwydiant dŵr.

Ffigur 3: Trosolwg o'r prif fframweithiau cynllunio sy'n effeithio ar y diwydiant dŵr yng Nghymru a Lloegr



<sup>1</sup> Future requirements to produce these plans were revoked through the Retained EU Law Act 2023. The current plans cover the period to 2027.

<sup>2</sup> Known as the National Environment Programme in Wales.

<sup>3</sup> Greater Manchester Combined Authority



## Y rheoleiddwyr (Pennod 3)

Mae pedwar prif reoleiddiwr yn y sector dŵr yng Nghymru a Lloegr.

- **Ofwat** (yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr) sy'n gyfrifol am reoleiddio economaidd y diwydiant dŵr yng Nghymru a Lloegr. Gan fod cwmnïau dŵr yn fonopolïau effeithiol, prif rôl Ofwat yw diogelu buddiannau defnyddwyr a sicrhau bod cwmnïau'n cyflawni eu swyddogaethau statudol a'u bod yn cael eu hariannu i wneud hynny. Mae amcanion eraill wedi cael eu hychwanegu dros amser.
- **Asiantaeth yr Amgylchedd** yw rheoleiddiwr amgylcheddol y diwydiant dŵr yn Lloegr. Mae'n rhoi'r caniatâd a'r trwyddedau sydd eu hangen ar gwmnïau dŵr i dynnu dŵr a chael gwared ar ddŵr gwastraff. Mae'n gyfrifol am y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn Lloegr.
- Mae gan **Cyfoeth Naturiol Cymru** swyddogaethau tebyg o ran rheoleiddio amgylcheddol y diwydiant dŵr yng Nghymru.
- Yr **Arolygiaeth Dŵr Yfed** sy'n gyfrifol am ansawdd cyflenwadau dŵr yfed cyhoeddus a sicrhau bod digon ar gael.

Mae cymhlethdod y gwaith rheoleiddio, ochr yn ochr â chylch gwaith, gallu ac adnoddau'r rheoleiddwyr, wedi dod i'r amlwg fel themâu cyffredin hyd yma wrth i'r Comisiwn ymgysylltu.

**Mewn perthynas â hyn, mae amcanion craidd rheoleiddwyr wedi ehangu'n sylweddol dros amser, gan gynnwys o ran yr amgylchedd, cydnerthedd ariannol, a thwf.** Er enghraifft, mae gan Ofwat bum dyletswydd gyffredinol erbyn hyn.<sup>23</sup> Codwyd cwestiynau ynghylch a yw'n bosibl i Ofwat gydbwysu'r holl amcanion hyn wrth gyflawni ei swyddogaethau craidd.

**Mae mwy o ddyletswyddau cyfreithiol penodol ar reoleiddwyr a chwmnïau dŵr hefyd.** Mae'r Comisiwn wedi clywed bod gofynion amgylcheddol newydd wedi cael eu gosod ar y fframwaith sy'n deillio o'r Undeb Ewropeaidd, gan arwain at drefn reoleiddio sy'n fwyfwy cymhleth ac yn anodd ei defnyddio.<sup>24</sup>

**Wrth i'w dyletswyddau ehangu, mae rhanddeiliaid wedi cwestiynu a oes gan reoleiddwyr y capasiti a'r adnoddau sydd eu hangen i'w cyflawni.** Mae'r Comisiwn wedi clywed bod pwysau ers tro ar Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru o ran adnoddau. Mae rhai wedi galw am well adnoddau at ddiben gorfodaeth, a rheoleiddio mwy modern, hyblyg sy'n seiliedig ar wybodaeth. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn dal i ddefnyddio hen systemau TG ar gyfer rhai

---

<sup>23</sup> Ofwat, [Ein dyletswyddau - Ofwat](#) (gwelwyd 17 Chwefror 2025)

<sup>24</sup> Ymgysylltu â'r Comisiwn

swyddogaethau.<sup>25</sup> O ran Ofwat, efallai y bydd gwersi gan sectorau eraill ynghylch y rôl goruchwylio i sicrhau bod amcanion polisi cyhoeddus yn cael eu cyflawni.

**Ymddengys hefyd fod tensiynau a gorgyffwrdd rhwng strwythurau rheoleiddio.**

Er enghraifft, mae Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed yn gosod gofynion amgylcheddol a gofynion dŵr yfed. Mae rhai wedi cwestiynu mai Ofwat sy'n penderfynu ar y costau y caniateir i gwmnïau eu hadennill gan gwsmeriaid mewn perthynas â bodloni'r gofynion hyn, gydag Ofwat yn defnyddio proses Adolygiad Prisiau i wneud hynny (gweler Pennod 4). Gall Ofwat herio cynlluniau ar sail effeithlonrwydd cost a chadw cost biliau i lawr. Fodd bynnag, nid yw'n gallu dileu prosiectau y mae'r rheoleiddwyr amgylcheddol na'r Arolygiaeth Dŵr Yfed wedi dweud eu bod yn angenrheidiol er mwyn bodloni gofynion rheoleiddio.<sup>26</sup>

**Mae'r Comisiwn wedi clywed y gallai fod bylchau hefyd lle nad yw rheoleiddwyr amgylcheddol yn ymateb yn ddigonol, o bosib, i fygythiadau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg.**<sup>27</sup> Mae hynny'n cynnwys bygythiadau i iechyd y cyhoedd fel pathogenau o garthion yn ogystal â microblastigau, lle mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg.

**Mae'r Comisiwn yn gofyn am farn ynghylch a ddylid egluro cyfrifoldebau a strwythurau rheoleiddwyr, a sut dylid gwneud hynny, er mwyn datrys heriau sy'n ymwneud â gorgyffwrdd a bylchau.** Gallai hyn olygu newid eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau fel eu bod yn fwy cysylltiedig. Gallai newidiadau eraill gynnwys dulliau cydlynu rheoleiddiol newydd neu uno swyddogaethau rheoleiddio.

**Mae enghreifftiau mewn sectorau eraill lle mae swyddogaethau rheoleiddio gwahanol wedi cael eu cyfuno.** Mae'r Awdurdod Hedfan Sifil, er enghraifft, yn canolbwyntio ar agweddau economaidd a diogelwch y diwydiant awyrennau. Mae Ofcom yn rheoleiddio o safbwynt rheoleiddio economaidd a chynnwys. Ceir enghreifftiau hefyd mewn meysydd eraill lle mae mwy nag un rheoleiddiwr yn ymdrin â sector gan ddefnyddio dulliau i hwyluso'r cydgysylltu neu egluro'r swyddogaethau rheoleiddio perthnasol. Yn y sector ariannol, mae'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus yn rheoleiddio rheolau darbodus banciau ac yswirwyr, ac mae'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn gyfrifol am ymddygiad ac am reoliadau'r farchnad ariannol, gyda chynrychiolaeth ar draws byrddau perthnasol y rheoleiddwyr.

Mae cwestiynau wedi'u holi hefyd ynghylch i ba raddau y mae'r rheoleiddwyr yn gwbl atebol am eu perfformiad (gweler Ffigur 4). **Mae gan y Comisiwn ddiddordeb mewn gweld a oes rôl gryfach i lywodraeth yn y maes hwn heb danseilio annibyniaeth rheoleiddwyr ac atebolrwydd i'r Senedd, yn achos Ofwat.**


---

<sup>25</sup> Asiantaeth yr Amgylchedd, [Supporting growth through regulatory reform: response from Environment Agency CEO to the Prime Minister - GOV.UK](#) (gwelwyd 17 Chwefror 2025)

<sup>26</sup> Ymgysylltu â'r Comisiwn

<sup>27</sup> Yr Academi Beirianneg Frenhinol, [Upgrades in wastewater infrastructure needed to protect public health](#) (gwelwyd 17 Chwefror 2025)

**Ffigur 4 - Trosolwg o'r fframwaith rheoleiddiol**



**Notes**

- 1 In addition, Defra and the Welsh government can provide guidance to Ofwat and have directional powers over the EA and NRW respectively. Defra is also Ofwat's sponsor department
- 2 Defra and Welsh ministers also hold some regulatory powers and duties as well as setting the overall strategic and policy framework
- 3 Ofwat also hold some environmental duties alongside their principal role as the economic regulator
- 4 The Environment Agency also regulate Welsh water companies' operations that are based in England, and Natural Resource Wales regulates English water companies' operations that are based in Wales.

## Rheoleiddio economaidd (Pennod 4)

Mae cwmnïau dŵr yn fonopoliau rhanbarthol. Mae un cwmni dŵr ar gyfer un ardal, ac nid yw cwsmeriaid yn gallu newid i ddarparwr arall. Gan nad oes cystadleuaeth, mae rheoleiddio economaidd gan Ofwat yn diogelu defnyddwyr rhag prisiau diangen a gwasanaeth gwael.

Canolbwynt gwaith rheoleiddio economaidd Ofwat yw proses yr Adolygiad Prisiau bob 5 mlynedd lle mae cwmnïau dŵr yn nodi eu cynlluniau ar gyfer yr hyn y byddan nhw'n ei gyflawni a faint y byddan nhw'n ei godi ar gwsmeriaid. Mae Ofwat yn craffu ar y cynlluniau hyn ac yn eu herio. Wedyn, mae'n pennu'r hyn y mae'n ei gredu sy'n swm teg i gwsmeriaid ei dalu.<sup>28</sup> Mae rheoleiddwyr eraill fel Ofcom ac Ofgem yn dilyn model 5 mlynedd tebyg o adolygu prisiau.

Mynegwyd nifer o bryderon i'r Comisiwn, gan gynnwys:

- **Dull cyffredinol Ofwat o gymharu costau rhwng cwmnïau (a elwir yn “feincnodi costau”), fel procsi ar gyfer cystadleuaeth.** Mae rhanddeiliaid wedi cwestiynu a yw hyn yn cyfleu'n ddigonol y gwahaniaethau o ran daearyddiaeth, poblogaeth a heriau eraill y mae gwahanol gwmnïau'n eu hwynebu.<sup>29</sup>
- **Dull Ofwat o gyfrifo gwariant “sylfaenol” (hynny yw, cynnal a chadw, adnewyddu, a gweithredu).** Mae hyn yn dibynnu'n bennaf ar wariant hanesyddol cwmnïau, yn hytrach nag asesiadau o gyflwr seilwaith cwmnïau neu gynlluniau buddsoddi yn y dyfodol.<sup>30</sup>
- **Swm y gwariant ar gyfer “gwella” (hynny yw, seilwaith newydd) y mae disgwyl i Ofwat graffu arno yn awr.** Mae hyn wedi cynyddu'n sylweddol yn Adolygiad Prisiau 2024, sydd wedi cynyddu'r baich ar Ofwat.<sup>31</sup>

**Mae'r Comisiwn yn ceisio barn ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw proses yr Adolygiad Prisiau.** Mae rhai wedi awgrymu, er enghraifft, newid cyfnod y broses ar gyfer rhai meysydd gwariant neu bob maes, yn hytrach na chael cynllun 5 mlynedd ar gyfer pob gwariant. Mae eraill wedi cwestiynu'r angen i asesu holl gynlluniau busnes y cwmni ar yr un pryd yn hytrach na gwneud hynny fesul un. **Mae gan y Comisiwn ddiddordeb hefyd mewn gweld a ellid cryfhau prosesau craffu Ofwat ar wariant sylfaenol i sicrhau canlyniadau cyflwr asedau.**

**Codwyd cwestiynau hefyd ynghylch a yw arian o filiau cwsmeriaid wedi cael ei ddefnyddio i gyflawni'r hyn a nodwyd yn y cynlluniau busnes y mae Ofwat wedi cytuno arnyn nhw.** Mae Ofwat yn craffu ar gynlluniau busnes cwmnïau dŵr ac yn

---

<sup>28</sup>[Placeholder for reference]

<sup>29</sup> [Placeholder for reference]

<sup>30</sup> [Placeholder for reference]

<sup>31</sup> [Placeholder for reference]

herio cwmnïau i gyflawni eu cynlluniau'n fwy effeithlon, ond ymddengys nad oes llawer o ddulliau i wirio'n uniongyrchol yr hyn sydd wedi'i gyflawni mewn gwirionedd.

Os bydd cwmnïau'n tanwario'r arian sydd wedi'i neilltuo, mae Ofwat yn ystyried bod hyn yn effeithlonrwydd a bydd y cwmni'n cael cadw'r arbedion, a rennir 40 – 60% gyda chwsmeriaid. Mae'r Comisiwn wedi clywed efallai bod rhai cwmnïau, yn y gorffennol, wedi cael eu cymell i ddilyn dull tymor byr o sicrhau effeithlonrwydd costau lle nad oedd asedau ond yn cael eu trwsio pan oedden nhw'n ddiffygiol, yn hytrach na mynd ati'n rhagweithiol i'w cynnal a'u cadw.

**Roedd newidiadau yn Adolygiad Prisiau 2014 wedi ysgogi Ofwat i ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau (er enghraifft, gostyngiad yn nifer y gollyngiadau) yn hytrach nag allbynnau (beth sy'n cael ei adeiladu).** Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno Cymhellion Cyflawni Canlyniadau (ODI) a oedd yn gosod targedau ar gyfer gwella gwasanaethau dros y cyfnod 5 mlynedd, gyda chwmnïau'n cael eu gwobrwyo'n ariannol neu'n cael eu cosbi yn erbyn y targedau hyn. Efallai bod y dull hwn wedi sbarduno effeithlonrwydd cost dros dymor byr ar draul darparu'r seilwaith a gynigir yng nghynlluniau busnes y cwmnïau yn y tymor hwy.

**Mae'r Comisiwn yn adolygu a ellid cryfhau'r broses o oruchwylio cynlluniau buddsoddi cwmnïau dŵr, a sut.**


### **Biliau cwmnïau dŵr**

Mae lefel ffydd cwsmeriaid o ran pa mor deg yw biliau wedi gostwng yn sylweddol. Yn 2023, roedd y rheini a oedd yn meddwl bod eu bil dŵr yn deg wedi disgyn o 64% i 55% yn 2022.<sup>32</sup> Mae biliau dŵr wedi gostwng mewn termau real bron bob blwyddyn ers 2014 (gweler ffigur 5) ac maen nhw'n dal yn sylweddol is na biliau ynni mewn termau real.

---

<sup>32</sup> CCW, ['Water Matters 2024'](#) (14 Chwefror 2025)

**Ffigur 5: Cyfartaledd Biliau Cyfun Blynyddol Dŵr a Charthffosiaeth ers preifateiddio, Cymru a Lloegr, prisiau nominal a phrisiau 2022/23**



### Ffynhonnell: Ofwat<sup>33</sup>

**Mae'r Comisiwn yn gofyn am farn am yr hyn sydd wedi sbarduno'r dirywiad yn ffydd cwsmeriaid a'r hyn sydd ei angen i adfer y ffydd wrth gofio y bydd angen cynyddu biliau i ariannu'r gwelliannau angenrheidiol yn y seilwaith.**

Diffinnir aelwyd sydd mewn tlodi dŵr fel aelwyd sy'n gwario mwy na 5% o'i hincwm net ar ddŵr ar ôl costau tai, ac mae nifer yr aelwydydd hynny wedi cynyddu, er gwaethaf y ffaith bod biliau wedi gostwng mewn termau real rhwng 2014 a 2024.<sup>34</sup> Rydym yn debygol o weld mwy o dlodi dŵr wrth i filiau yn y dyfodol gynyddu i ariannu'r angen cynyddol am fuddsoddiad.

**Mae'r Comisiwn yn edrych ar sut mae adnabod aelwydydd a allai fod yn fregus yn hyn o beth a mynd ati'n rhagweithiol i gynnig cymorth, ac a oes modd i'r cymorth a gynigir fod yn decach ac yn fwy cyson.**

<sup>33</sup> Data Ofwat wedi'i ddarparu'n uniongyrchol i'r Comisiwn. Sylwch fod y ffigurau ar gyfer 2023-24 a 2024-25 yn rhai dros dro ac mai rhagamcan ydyn nhw, yn y drefn honno (ar sail y cyflwyniadau diweddaraf ym mis Ionawr 2024)

<sup>34</sup> CEPA, '[Quantitative analysis of water poverty in England and Wales](#)' Gan ddefnyddio'r diffiniad o dlodi dŵr sy'n cyfeirio at le mae bil aelwyd yn cyfrif am dros 5% o'u hincwm gwario ar ôl costau tai; CCW, '[CCW's response to Ofwat's 2025-30 draft price determination - CCW](#)' (14 Chwefror 2025)



## Cydnherthedd ariannol

**Mae'n amlwg bod penderfyniadau hanesyddol a wnaed gan gwmnïau ar lefelau dyled yn golygu bod rhai cwmnïau mewn sefyllfa fregus yn ariannol.**

Roedd y penderfyniadau hyn yn aml yn cyd-daro â symud i strwythurau perchnogaeth a oedd yn fwy cymhleth, a chwmnïau a oedd yn chwilio am enillion tymor byrrach yn rhan o'r broses.<sup>35</sup>

Mae'n bwysig bod cwmnïau a'u perchnogion yn ysgwyddo'r costau yn ogystal â derbyn manteision y penderfyniadau a wnânt. Ond mae llawer o'r rheini a oedd yn ymwneud â phenderfyniadau hanesyddol mentrus, sydd wedi arwain at golledion ariannol sylweddol a pherfformiad amgylcheddol gwael, wedi gwerthu eu buddsoddiadau erbyn hyn ac wedi symud ymlaen. Hefyd, mae'n amlwg bod pwysau ehangach – y tu hwnt i reolaeth cwmnïau – wedi bod yn dreth ar sefyllfa ariannol cwmnïau.

Yn 2015, cyflwynodd Ofwat fframwaith monitro i olrhain cydnherthedd ariannol cwmnïau'n well.<sup>36</sup> Mae amheuon ynghylch a yw hyn yn mynd yn ddigon pell, a hefyd a oes achos i Ofwat ehangu ei gamau goruchwyllo yn y maes hwn.

**Mae'r Comisiwn yn ceisio barn i weld a ddylid newid y model rheoleiddio cydnherthedd ariannol.**

## Buddsoddi a thwf

**Mae angen buddsoddiad sylweddol dros dymor hir ar y diwydiant dŵr.**

Dros y pum mlynedd nesaf, rhagwelir y bydd cwmnïau'n gwario £104 biliwn i gynnal ac uwchraddio'r system, gan gynnwys £44 biliwn o fuddsoddiad mewn seilwaith newydd.<sup>37</sup> Mae'n bur debyg y bydd effeithiau newid yn yr hinsawdd a thwf mewn poblogaeth yn ychwanegu at y costau hyn mewn adolygiadau o brisiau yn y dyfodol.

**Dim ond os oes cydbwysedd teg rhwng risg a gwobr, ac amgylchedd rheoleiddio sefydlog, y bydd y sector yn gallu denu'r cyllid ar gyfer y buddsoddiad hwn mewn modd cynaliadwy.** Gofynnir i fuddsoddwyr ddarparu'r biliynau o bunnoedd o gyllid er mwyn i gwmnïau allu cyflawni gwelliannau, ac mae angen iddyn nhw allu credu y byddan nhw'n cael elw teg ar eu buddsoddiad ac amgylchedd rheoleiddio sefydlog.

Er bod y diwydiant dŵr wedi cael ei weld yn y gorffennol fel buddsoddiad risg isel a oedd yn sicrhau enillion cyson dros yr hirdymor, mae'r Comisiwn wedi clywed nad felly yw hi mwyach i bob golwg. Mae rhai buddsoddwyr wedi gorfod dileu eu

---

<sup>35</sup> [Full article: Private equity and the regulation of financialised infrastructure: the case of Macquarie in Britain's water and energy networks](#)

<sup>36</sup> [Placeholder for reference]

<sup>37</sup> Ym mhrisiau 2022/23. [Our final determinations for the 2024 price review – Sector summary](#)

buddsoddiadau'n llwyr. Yn fwy cyffredinol, mae enillion buddsoddwyr wedi gostwng dros amser, a gellid dadlau bod yr amgylchedd gwleidyddol a rheoleiddiol y mae'r diwydiant dŵr yn gweithredu ynddo wedi mynd yn ansefydlog ac yn anrhagweladwy.<sup>38</sup> Mae'r asiantaethau sgorio wedi israddio rhagolygon y sector, yn ogystal â rhai cwmnïau, gan wneud y sector yn llai deniadol i fuddsoddwyr, yn enwedig y buddsoddwyr hynny sy'n chwilio am fuddsoddiad elw isel, risg isel.<sup>39</sup>

Ar y llaw arall, mae'r Comisiwn hefyd wedi clywed barn bod enillion buddsoddwyr wedi bod yn rhy uchel, a bod cwmnïau wedi bod yn perfformio'n wael hefyd, yn enwedig mewn perthynas â safonau amgylcheddol.<sup>40</sup>

Felly, mae angen taro cydbwysedd rhwng gwneud y sector yn ddeniadol i'r rheini sy'n darparu'r cyllid y mae'n amlwg bod ei angen, yn ogystal â sicrhau elw teg a sefydlog ac atebolrwydd clir hefyd.

**Mae'r Comisiwn yn casglu tystiolaeth ar rôl Ofwat o ran pennu enillion buddsoddwyr, gan gynnwys mewn Adolygiadau Prisiau yn y dyfodol.** Mae hyn yn cynnwys barn am fethodoleg Ofwat ar gyfer Cost Cyfalaf Gyfartalog wedi'i Phwysoli (WACC), sy'n pennu'r swm a ddyrennir i gwmnïau i wobrwyo buddsoddwyr am fentro eu harian.

**Mae'r Comisiwn hefyd yn archwilio i ba raddau y mae'r system bresennol wedi arwain y sector at wahanol fathau o fuddsoddwyr sy'n chwilio am gyfle i fuddsoddi am gyfnodau.**

Yn fwy cyffredinol, mae'r Comisiwn wedi clywed am rethreg wleidyddol negyddol sy'n niweidio pa mor ddeniadol yw'r sector.<sup>41</sup> **Mae gan y Comisiwn ddiddordeb mewn clywed barn ynghylch a yw hyn yn ffactor o ran agweddau buddsoddwyr.**

## Cystadleuaeth

**O ystyried mai ychydig o gystadleuaeth sydd mewn marchnad fonopoli fel dŵr, mae nifer o gynlluniau wedi cael eu cyflwyno ers preifateiddio i geisio dod ag elfennau o gystadleuaeth i'r sector, a sbarduno gwasanaethau gwell.**

Mae Penodiadau Newydd ac Amrywiadau (NAV) yn un enghraifft, ac fe'u defnyddir yn bennaf gan ddatblygwyr tai i gyflenwi gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth i safleoedd newydd.

---

<sup>38</sup> Ymgysylltu â'r Comisiwn, <https://www.oxera.com/wp-content/uploads/2024/08/Investability-at-PR24-2.pdf>, [Monitoring financial resilience - Ofwat](#)

<sup>39</sup> Moody's, Outlook: Regulated Water Utilities – UK, 14 Hydref 2024, [Credit rating agency report - Moody's January 2025](#), [Ratings.Moodys.com/ratings-news/432573](https://www.moodys.com/ratings-news/432573)

<sup>40</sup> [The affluent and the effluent: cleaning up failures in water and sewage regulation](#)

<sup>41</sup> Ymgysylltu â'r Comisiwn

Mae'r Farchnad Manwerthu Busnes yn un arall, sy'n galluogi cyflenwyr manwerthu i brynu gwasanaethau gan gwmnïau dŵr a chynnig pecyn iddyn nhw i'w werthu i gwsmeriaid busnes.

Mae cynlluniau fel y rhain yn galluogi newydd-ddyfodiaid i gystadlu yn erbyn cwmnïau dŵr presennol a sbarduno cystadleuaeth.

**Mae'r Comisiwn yn gofyn am farn am gryfderau a chyfyngiadau'r cynlluniau cystadleuaeth presennol hyn ac eraill, yn ogystal ag opsiynau posibl ar gyfer diwygio.**

## Cyflawni amcanion polisi cyhoeddus yn y diwydiant dŵr (Pennod 5)

### Gwarchod yr amgylchedd ac iechyd y cyhoedd

**Mae rheoleiddio dŵr ar lefel amgylcheddol yn hanfodol.** Mae'n diogelu'r pysgod, y planhigion a'r mathau eraill o fywyd gwyllt sy'n dibynnu ar y system ddŵr. Mae'n diogelu iechyd y cyhoedd, gan gynnwys y rheini sy'n nofio, yn syrffio ac yn mwynhau gweithgareddau hamdden eraill. Hefyd, mae'n gwarchod ein hadnoddau dŵr cyfyngedig.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru yn goruchwyllo perfformiad amgylcheddol y cwmnïau dŵr ac yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rheoliadau.

Mae'n amlwg bod perfformiad amgylcheddol llawer o gwmnïau dŵr wedi bod yn wael, ac yn wael iawn mewn rhai achosion, ac nad yw'r sector, yn ei gyfanrwydd, wedi llwyddo i symud gyda disgwyliadau cymdeithas o ran amgylchedd dŵr.<sup>42</sup> Mae'r Comisiwn wedi clywed pryderon ynghylch sut mae cwmnïau dŵr yn cael eu dal i gyfrif gan y rheoleiddwyr am eu perfformiad amgylcheddol, ac a yw rheoleiddwyr yn gallu gorfodi gofynion amgylcheddol.

Mae pryderon a fynegwyd i'r Comisiwn yn cynnwys:

- **Maint y diffyg cydymffurfio posibl â gofynion amgylcheddol.** Ers 2015, mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cwblhau 66 o erlyniadau yn erbyn cwmnïau dŵr a charthffosiaeth.<sup>43</sup> Mae Ofwat ac Asiantaeth yr Amgylchedd ill dau yn cynnal ymchwiliadau cyfredol i'r posibilrwydd o ddiffyg cydymffurfio mewn gwaith trin dŵr gwastraff.<sup>44</sup> Mae pryderon hefyd ynghylch gallu a chapasiti'r rheoleiddwyr ac a

---

<sup>42</sup> Asiantaeth yr Amgylchedd, [Environmental performance assessment \(EPA\) star ratings 2011 to 2023 - GOV.UK](#) (gwelwyd ar 17 Chwefror 2025); Cyfoeth Naturiol Cymru, [Cyfoeth Naturiol Cymru / Adroddiadau dŵr](#) (gwelwyd 17 Chwefror 2025)

<sup>43</sup> Ymgysylltu â'r Comisiwn

<sup>44</sup> Asiantaeth yr Amgylchedd, [Environment Agency investigation into sewage treatment works – Creating a better place](#) (gwelwyd 17 Chwefror 2025); Ofwat, [Our investigation: Why, what, how, when - Ofwat](#) (gwelwyd 17 Chwefror 2025)

ydyn nhw'n monitro yn y ffordd gywir, yn ogystal â chywirdeb data gan y cwmnïau dŵr.<sup>45</sup>

- **Mae gwybodaeth yn y system rheoleiddio amgylcheddol yn anghymesur.** Mae gan y diwydiant sy'n cael ei reoleiddio lawer mwy o wybodaeth na'r rheoleiddiwr. Mae ehangu'r gwaith o fonitro gorlifiad stormydd wedi'i groesawu, ond cafwyd galwadau am fonitro mwy helaeth a dadansoddi setiau data mawr yn gyflymach ac yn well er mwyn sicrhau bod cwmnïau'n cydymffurfio â'r safonau y disgwylir iddyn nhw eu cyrraedd. Cyflwynwyd y drefn 'Hunanfonitro gan Weithredwyr' yn 2009, ac mae hyn yn golygu bod yn rhaid i gwmnïau dŵr a charthffosiaeth samplu eu dŵr gwastraff, a rhoi gwybod i Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru am unrhyw achosion o dorri'r rheolau. Cafwyd galwadau i ddod â'r drefn honno i ben.<sup>46</sup>
- **Y gallu i ddal cwmnïau dŵr i gyfrif am ddiffyg cydymffurfio.** Mae llawer o sylwadau wedi bod ar ba mor gyflym y dylid rhoi cosbau i gwmnïau dŵr a pha mor llym y dylen nhw fod. Mae'r Comisiwn wedi clywed nad yw'r dull gorfodi presennol wedi bod yn ddigon i sbarduno newid mewn ymddygiad.<sup>47</sup> Mae cwestiynau hefyd ynghylch a yw'n fwy cost-effeithiol i gwmnïau dalu cosb yn hytrach na chydymffurfio mewn rhai achosion.<sup>48</sup>

**Mae'r Comisiwn yn ceisio barn i weld a oes modd cryfhau proses goruchwylio perfformiad amgylcheddol cwmnïau o safbwynt y rheoliadau.**

## Sicrhau cyflenwad dŵr hirdymor

**Mae darparu cyflenwad diogel a dibynadwy o ddŵr yfed glân a gwasanaethau glanweithdra yn un o brif swyddogaethau'r sector dŵr.**

Mae cydymffurfedd y diwydiant dŵr â safonau dŵr yfed yng Nghymru a Lloegr gyda'r gorau yn y byd. Mae cwmnïau dŵr yn bodloni'r safonau rheoleiddio llym ar gyfer dŵr yfed yn gyson, gyda 99.97% o samplau yn Lloegr a 99.96% o samplau yng Nghymru yn cydymffurfio â safonau rheoleiddio yn 2023.<sup>49</sup> Mae dros 98% o bobl yn y Deyrnas Unedig yn cael mynediad at wasanaethau glanweithdra diogel a dibynadwy, ac mae Mynegai Perfformiad Amgylcheddol (EPI) 2024 yn rhoi sgôr berffaith o 100 i ddŵr yfed y Deyrnas Unedig, gan ei roi ymysg y mwyaf diogel ar draws y byd.<sup>50</sup>

---

<sup>45</sup> Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol Tŷ'r Cyffredin, [Water Quality in Rivers](#) (gwelwyd 17 Chwefror 2025)

<sup>46</sup> Ymgysylltu â'r Comisiwn

<sup>47</sup> Ymgysylltu â'r Comisiwn

<sup>48</sup> Ymgysylltu â'r Comisiwn

<sup>49</sup> Yr Arolygiaeth Dŵr Yfed, [Drinking Water 2023: The Chief Inspector's report for drinking water in England](#), [Drinking Water 2023: The Chief Inspector's report for drinking water in Wales](#) (13 Chwefror 2025)

<sup>49</sup> Mynegai Perfformiad Amgylcheddol, [2024 Environmental Performance Index - Unsafe drinking water](#) (13 Chwefror 2025)

<sup>50</sup> <https://epi.yale.edu/measure/2024/UWD>

Mae'r Comisiwn wedi clywed am yr angen am weithredu i sicrhau bod safonau ansawdd dŵr yfed yn parhau i gael eu cynnal i gyrraedd safon uchel dros y tymor hir, gan gynnwys ystyried a ddylid adolygu a diweddarau'r rheoliadau presennol.<sup>51</sup>

**Mae'r Comisiwn yn ystyried sut mae sicrhau safonau uchel drwy'r amser, er enghraifft drwy ddiweddarau rheoliadau, cynyddu gallu a chapasiti neu ymestyn pwerau rheoleiddio'r Arolygiaeth Dŵr Yfed.**

## Cynnal seilwaith cadarn a diogel

**Mae dŵr yfed diogel a rheoli dŵr gwastraff yn effeithiol yn gofyn am seilwaith a chadwyni cyflenwi cadarn.**

Mae'r Comisiwn wedi clywed nad yw'n glir beth yw gwir gyflwr sylfaen asedau'r diwydiant dŵr, sef ei bibellau, ei weithfeydd trin dŵr, ei gronfeydd dŵr a'i orsafoedd pwpio. Nid oedd yn ofynnol i gwmnïau fapio eu hasedau cyn preifateiddio ac nid yw'n ymddangos bod ganddyn nhw fapiau asedau cynhwysfawr na gwybodaeth am gyflwr asedau.

O ran monitro cydnerthedd seilwaith a chyflwr asedau, mae Ofwat yn mynnu bod cwmnïau'n hunanadrodd yn flynyddol ar nifer gyfyngedig o fetrigau (gwaith atgyweirio'r prif bibellau, carthffosydd yn chwalu, a chyfnodau heb ddŵr heb eu cynllunio). Fodd bynnag, mae'r metrigau hyn yn seiliedig ar ganlyniadau a dim ond pan fydd y system yn methu maen nhw'n dod i'r amlwg, yn hytrach na bod cwmnïau'n cadw golwg ar gyflwr presennol yr asedau.

Mae'r cyfraddau adnewyddu pibellau yn ymddangos yn isel. Cafodd y rhan fwyaf o'r prif bibellau eu hadeiladu cyn y preifateiddio (gweler Ffigur 7), ac mae'r gyfradd adnewyddu pibellau wedi gostwng yn sylweddol ar ôl 2008.<sup>52</sup> Y gyfradd adnewyddu bresennol ar gyfer prif bibellau dŵr yw 0.1% bob blwyddyn, 10 gwaith yn is na chyfartaledd Ewrop, a'r gyfradd adnewyddu ar gyfer asedau dŵr gwastraff yw 0.2%, 3 gwaith yn is na chyfartaledd Ewrop o 0.6%.<sup>53</sup>


**Ffigur 7: Cyfran hyd y prif bibellau dŵr sydd wedi'u hadeiladu neu eu hadnewyddu'n strwythurol yng Nghymru a Lloegr yn ôl y cyfnod gosod, 2022/23**

---

<sup>51</sup> Ymgysylltu â'r Comisiwn

<sup>52</sup> Mae Ofwat yn [adrodd](#) bod cyfraddau adnewyddu'r prif bibellau, ar gyfartaledd, wedi gostwng ar ôl 2008 oherwydd diwedd y rhaglen gwella ansawdd dŵr yfed

<sup>53</sup> <https://www.water.org.uk/sites/default/files/wp/2022/06/Options-for-a-Sustainable-Approach-to-Asset-Maintenance-and-Replacement-June-2022.pdf>



### Ffynhonnell: Yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata Ofwat<sup>54</sup>

Mae'r Comisiwn wedi clywed hefyd fod diffyg safonau cydnerthedd cyffredinol ar gyfer seilwaith yn golygu nad yw cwmnïau bob amser yn gwybod pa safonau y dylen nhw geisio eu cyrraedd.<sup>55</sup>

**Mae'r Comisiwn yn gofyn am farn am gyflwr asedau a pha mor gadarn ydyn nhw, gan gynnwys a ddylid gwella'r gwaith o fonitro cyflwr asedau seilwaith dŵr, a oes angen safonau cydnerthedd, ac a yw'r dull presennol o adnewyddu asedau yn ddigonol.**

Mae'n rhaid i seilwaith cwmnïau dŵr allu gwrthsefyll bygythiadau ymosodol hefyd, gan gynnwys ar seiberddiogelwch. **Mae gan y Comisiwn ddiddordeb mewn opsiynau i sicrhau diogelwch y sector.**

**Mae'n ceisio barn hefyd am gadwyni cyflenwi'r diwydiant dŵr.** Mae'r diwydiant dŵr yn dibynnu ar ddiwydiannau eraill, yn enwedig ar gyfer y cemegau sydd eu hangen i ddod o hyd i ddŵr, ei drin a'i ddosbarthu. Mae'r Comisiwn wedi clywed pryderon hefyd ynghylch y cadwyni cyflenwi ar gyfer adeiladu, o ystyried y seilwaith newydd sylweddol

<sup>54</sup> Dadansoddiad o ddata [Ofwat](#)

<sup>55</sup> [NIC-Resilience-Standards-Report-Final-190924.pdf](#)

sydd wedi'i gynllunio yn Adolygiad Prisiau 2024 (gan gynnwys 9 cronfa ddŵr newydd a threblu cyfradd adnewyddu'r prif bibellau).<sup>56</sup>

**Mae'r Comisiwn yn ceisio barn am gapasiti a chadernid cadwyni cyflenwi, yn enwedig o ystyried maint y buddsoddiad newydd.**

## Arloesi ar waith

**Mae'r Comisiwn wedi clywed barn am arloesi yn y sector dŵr ac a yw'n cael ei gyfyngu neu ei gymhell gan y fframwaith rheoleiddio.** Mae'n ymddangos bod cynlluniau fel Cronfa Arloesi Ofwat, a chyrrff ehangach ar draws y diwydiant (er enghraifft, UK Water Industry Research) wedi annog arloesedd.

Fodd bynnag, mae'r Comisiwn wedi clywed hefyd y gallai amharodrwydd rheoleiddwyr a chwmnïau dŵr i gymryd risgiau lesteirio dulliau arloesol. Gellid dadlau bod deddfwriaeth amgylcheddol yn ffafrio dulliau peirianeg mwy 'penodol' yn hytrach nag opsiynau mwy newydd nad ydynt wedi cael eu profi cymaint.<sup>57</sup>

Mae'n ymddangos bod technolegau newydd fel deallusrwydd artiffisial yn cynnig y potensial i wella'r gwaith o fonitro, mapio, a rhagfynegi materion yn ymwneud â seilwaith. Er mwyn cyflwyno'r rhain, mae'n bur debyg y bydd angen sgiliau ac agweddau newydd, yn ogystal ag adnoddau gan gwmnïau a rheoleiddwyr fel ei gilydd.

Mae'r Comisiwn wedi clywed pryderon hefyd am effaith proses Adolygiad Prisiau Ofwat ar arloesi ac a yw cyfnod 5 mlynedd yr Adolygiad Prisiau yn llesteirio cwmnïau sy'n chwilio am gyfleoedd arloesol tymor hwy a gyflwynir gan dechnolegau newydd.<sup>58</sup>

**Mae'r Comisiwn yn ceisio barn am sut dylai'r fframwaith rheoleiddio gefnogi arloesedd.**

---

<sup>56</sup> Ymgysylltu â'r Comisiwn


<sup>57</sup> [Placeholder for reference]

<sup>58</sup> [Placeholder for reference]

## Perchnogaeth cwmnïau dŵr (Pennod 6)

Mae sawl model perchnogaeth ar gyfer cwmnïau dŵr. Yn Lloegr, rhestrir tri grŵp yn gyhoeddus ar Gyfnewidfa Stoc Llundain (Severn Trent, South West Water ac United Utilities).<sup>59</sup> Mae eraill yn eiddo i grwpiau o fuddsoddwyr preifat, gan gynnwys cronfeydd ecwiti preifat, cronfeydd pensiwn a chwmnïau seilwaith rhyngwladol. Mae cyfran y cwmnïau a restrir yn gyhoeddus wedi gostwng ers preifateiddio (gweler Ffigur 8).

Ffigur 8: Esblygiad perchnogaeth, 1990-2023, Cwmnïau dŵr a charthffosiaeth, cyfran y boblogaeth a wasanaethir, %



**Ffynhonnell: Yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata Ofwat<sup>60</sup>**

**Nid yw'r dystiolaeth gychwynnol yn awgrymu perthynas achosol glir rhwng modelau perchnogaeth a pherfformiad ar amrywiaeth o fetrigau.** Yn aml, mae cwmnïau sydd wedi'u rhestru'n gyhoeddus yn fwy cadarn yn ariannol, er bod cysylltiad â ffydd y cyhoedd yn llai clir.<sup>61</sup> Mae gan Ddŵr Cymru fodel nid-er-difidend, ac mae'n ennyn mwy o ffydd ymysg y cyhoedd na'r hyn sy'n gyffredin, ond perfformiad cymysg sydd i'w weld ganddo ar draws y canlyniadau gweithredol, ariannol ac amgylcheddol.<sup>62</sup>

O ran llywodraethu, mae'r Comisiwn yn nodi bod llywodraeth y Deyrnas Unedig eisoes wedi gofyn i gwmnïau newid eu 'Herthyglau Cymdeithasu' – y rheolau sy'n llywodraethu pob cwmni – fel mai eu prif amcan yw buddiannau cwsmeriaid a'r

<sup>59</sup> [Our shares | Shareholder centre | Severn Trent Plc](#), [Water and wastewater | Pennon Group PLC](#), [Investor guide | United Utilities - Corporate](#)

<sup>60</sup> Yn seiliedig ar Ddata Mewnol a Rennir gan Ofwat

<sup>61</sup> Gweler adroddiadau diweddar ar fonitro a chydnerthedd ariannol a gyhoeddwyd gan Ofwat. [Monitoring financial resilience - Ofwat](#)

<sup>62</sup> [Monitoring Financial Resilience report 2023-24 - Ofwat](#), [Water Company Performance Report 2023-24 - Ofwat](#), [Cyfoeth Naturiol Cymru / Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer Dŵr Cymru \(Welsh Water\)](#), [Water Matters Mai 2024](#)



amgylchedd. Mae paneli defnyddwyr yn cael eu sefydlu i gynnwys defnyddwyr mewn penderfyniadau.<sup>63</sup>

**Mae gan y Comisiwn ddiddordeb mewn cael rhagor o farn a thystiolaeth ar wahanol opsiynau model perchnogaeth a llywodraethu.**

---

<sup>63</sup> [Government announces first steps to reform water sector - GOV.UK](#)